**CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**

COFNODION

---

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y CABINET RHANBARTHOL: 30 MEHEFIN 2017

---

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol oedd yn Bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Nigel Daniels | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Stephen Gillingham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Y Cyng. Huw David, Arweinydd | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Mark Shephard | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cyng. Sean Morgan | - | Cyngor Caerffili |
| Chris Burns, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerffili |
| Cyng. Huw Thomas | - | Cyngor Caerdydd |
| Paul Orders, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerdydd |
| Y Cyng. Kevin O’Neill, Arweinydd | - | Cyngor Merthyr |
| Gareth Chapman, Prif Weithredwr | - | Cyngor Merthyr |
| Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Paul Matthews, Prif Weithredwr | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd | - | Cyngor Casnewydd |
| Will Godfrey, Prif Weithredwr | - | Cyngor Casnewydd |
| Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Christopher Lee | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd | - | Cyngor Torfaen |
| Alison Ward, Prif Weithredwr | - | Cyngor Torfaen |
| Y Cyng. John Thomas, Arweinydd | - | Bro Morgannwg |
| Rob Thomas, Prif Weithredwr | - | Bro Morgannwg |

Swyddogion:

| | | |
|---|---|---|
| Liz Weale | - | Corff Atebol |
| Hrjinder Singh | - | Corff Atebol |
| Ian Allwood | - | Corff Atebol |
| Alistair Milburn | - | Cyfathrebiadau Effeithiol |
| Sheila Davies, Cyfarwyddwr | - | Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig |
| Sian Lewis | - | Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig |
| Matthew Swindell | - | Swyddog Rheoli Rhaglen Y Fargen Ddinesig |

Ymddiheuriadau:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. David Poole, Arweinydd | - | Cyngor Caerffili |
| Darren Mepham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Chris Bradshaw, Prif Weithredwr | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Christine Salter | - | Corff Atebol |

12 : CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Gwahoddwyd Alison Ward i Gadeirio ar gyfer rhan ffurfiol proses benodi’r CCB yn

absenoldeb Darren Mepham (Y Prif Swyddog Gweithredol Arweiniol). Nodwyd a chofnodwyd ymddiheuriadau. Gofynnodd y Cabinet i roi gwybod i Chris Bradshaw eu bod yn cydymdeimlo ag ef.

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan a wnaed ar eitemau ar agenda'r cyfarfod.

14 : CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau gan Aelodau ar gyfer Cadeirydd am y flwyddyn i ddod. Enwebwyd y Cynghorydd Andrew Morgan. Cafodd ei eilio a'i ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yna, aeth y Cyng. Morgan ati i Gadeirio a gofyn am enwebiadau ar gyfer dau Is-Gadeirydd. Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer y Cynghorwyr Peter Fox a Huw Thomas. Cawsant eu heilio a'u hethol fel Is-Gadeiryddion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

15 : ADRODDIAD ALLDRO A DATGANIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2016/17

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar ran y Corff Atebol:-

1. 1. Rhoi manylion i'r Cyd-Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cyd-Gabinet) am yr alldro terfynol yn erbyn ei gyllideb ar gyfer rhan o'r flwyddyn 2016/17, sef y cyfnod rhwng 1 Mawrth – 31 Mawrth 2017.
2. 2. Cyflwyno i'r Cyd-Gabinet Ffurflen Flynyddol y Cyrff Llai heb ei harchwilio (Ffurflen Flynyddol) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 0217, i'w hystyried a'i chymeradwyo, yn unol â'r dyddiad cau statudol, sef 30 Mehefin 2017.
3. 3. Yn amodol ar y Cyd-Gabinet yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol, caiff y ffurflen ei chyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru, er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i gynnal ei harchwiliad allanol o'r ffurflen.

**PENDERFYNWYD:** y dylai Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

a) Nodi'r alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 a lefel y gwarged ar gael i gefnogi cyllideb y Cyd-Gabinet ar gyfer 2017/18;

b) Ystyried a chymeradwyo Ffurflen Flynyddol y Cyrff Llai heb ei harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, wedi'i hatodi fel Atodiad A, ac;

c) Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r Ffurflen Flynyddol ar ran y Cyd-Gabinet ac awdurdodi'r Corff Atebol i gyflwyno'r Ffurflen Flynyddol i Swyddfa Archwilio Cymru.

16 : DERBYN A CHYMERADWYO COFNODION Y CABINET RHANBARTHOL AR:-

a) 17 Mawrth 2017
b) 02 Mai 2017

Gofynnodd y Cyng. Morgan i gydweithwyr a oedd ganddynt unrhyw ddiwygiadau i'w gwneud i'r cofnodion drafft o'r ddau gyfarfod diwethaf a ddosbarthwyd. Tynnodd Sheila Davies sylw Aelodau at ddiwygiadau i ddwy frawddeg yng Nghofnod Rhif 5 o gofnodion 02 Mai 2017, gan fod angen addasiadau bach iddynt. Cytunwyd ar y diwygiadau yn dilyn hynny ac yna cadarnhawyd dwy gyfres o gofnodion fel rhai cywir o'r ddau gyfarfod.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan i gydweithwyr a oeddent yn dymuno parhau i gwrdd ar ddydd Gwener, neu newid i ddiwrnod arall. Awgrymwyd boreau Llun hefyd. Nodwyd bod y ddau ddiwrnod yn effeithio ar wahanol Aelodau am wahanol resymau, ond cytunwyd y byddai'r dyddiadau drafft yn cael eu dosbarthu i Aelodau gytuno arnynt yn y cyfarfod ffurfiol nesaf. Yn dilyn hynny, byddai calendr o gyfarfodydd ar gyfer y 6 i 12 mis nesaf ar gael ar y wefan er mwyn hysbysu'r cyhoedd a phartneriaid am amserlen o gyfarfodydd cyhoeddus.

18 : UNRHYW FUSNES ARALL

i) Cyfeiriodd y Cyng. David at adroddiad Tasglu'r Cymoedd, a oedd ar fin cael ei gyhoeddi, a chynhaliwyd trafodaeth yn ymwneud ag ymgysylltu ac ymgynghori â'r grŵp o'r corff hwn o ran gwaith partneriaeth rhanbarthol. Awgrymwyd y dylid gwahodd Maureen Howell i gyfarfod anffurfiol yn y dyfodol i ddiweddaru'r Aelodau ar waith y Tasglu.

ii) Awgrymwyd y dylid gwneud cysylltiadau ffurfiol â chydweithwyr sy'n ymgymryd â Bargen Ddinesig Abertawe fel ffordd o fynd i'r afael â phrosiectau o arwyddocâd mwy cenedlaethol ar draws De Cymru, gan ddefnyddio enghreifftiau ymhlith dinasoedd Lloegr sy'n gwneud gwaith tebyg. Gallai hyn gynnwys cwrdd â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a'r DU.

iii) Nodwyd bod Will Godfrey wedi trefnu cyfarfod cychwynnol â Llywodraeth Cymru ynghylch ardrethi busnes yr wythnos nesaf. Gofynnodd Aelodau i Will siarad â nhw yn benodol am dwf a materion cadw ardrethi busnes a rhoi adborth mewn cyfarfod anffurfiol diweddarach, yn ogystal â chysylltu â'r Prif Swyddog yn Abertawe fel cymhariaeth.

Diolchodd y Cyng. Morgan ei gydweithwyr am fod yn bresennol a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.